

# Pwy sy'n rhedeg Cymru? 2011

## Canrif o gamau tuag at gydraddoldeb rhywiol




Comisiwn
**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**Equality and Human Rights**
Commission

# Canrif o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod

**Ym 1910 pleidleisiodd Cynhadledd Rhyngwladol Menywod sy'n Gweithio ar gynnig i greu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.**

Roedd hwn yn awgrymu y dylai fod dathliad byd-eang bob blwyddyn i dalu deyrnged i rôl menywod yn y gymdeithas a gwthio am newidiadau cymdeithasol pellach, gan gynnwys cael mwy o fenywod i dderbyn swyddi cyhoeddus. Cytunodd y Gynhadledd, a oedd yn cynnwys dros 100 o fenywod o 17 gwlad wahanol, yn unfrydol i'r cynnig a ganwyd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Digwyddodd y Diwrnod Rhyngwladol y Menywod cyntaf ym 1911. Cynhaliwyd cyfarfodydd ledled y byd a chynhwyswyd 30,000 o fenywod yn y gwrthdystiad stryd mwyaf. Bob blwyddyn ers 1911 mae dathliadau wedi cymryd lle ledled y byd.

Eleni yn Nhseina, Botswana, Yr Iwerddon a llawer o wledydd eraill cynhelir digwyddiadau ynglŷn â chael mwy o fenywod i dderbyn safleoedd o rym.

# Cynnwys:


Y daith anorffen: arwain menywod i'r brig yng Nghymru .......... 3
Cyflwyniad .......... 4
Yn ystafelloedd bwrdd y sector preifat .......... 5
Byd gwleidyddiaeth Cymru .......... 6
Pwysigrwydd mesurau arbennig .......... 7
Cynnydd yn aros yn rhy araf .......... 8
Y cydbwysedd rhwng y rhywiau yng Nghymru .......... 9
Manylion cyswllt a ffynonellau .......... 12


**Delweddau'r clawr blaen:**

Swffragetiaid Cymru yn gorymdeithio yn Llundain ym 1911.
Y Cynulliad Cenedlaethol yn dathlu cydraddoldeb rhywiol yn 2003.

# Y daith anorffen: arwain menywod i’r brig yng Nghymru

**Eleni rydym yn dathlu 100 o flynyddoedd o Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi rhai o’r camau a gymerwyd ers 1911 tuag at arwain menywod i safleoedd o rym a dylanwad. Hefyd rydym yn asesu pa mor bell mae rhaid inni fynd o hyd yng Nghymru tuag at gyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau wrth y byrddau sy’n gwneud penderfyniadau yng Nghymru.**

Arweiniodd y Cynulliad Cenedlaethol y ffordd â’r cydbwysedd rhywiol perffaith cyntaf yn y byd yn 2003. Mae hyn yn gosod meincnod ar gyfer tegwch.

Mae’r ffeithiau noeth yn dangos unwaith eto bod cynnydd ar y cyfan yn llawer rhy araf. Mae Cymru o hyd yn wlad ble mai mwyafrif mawr y bobl sy’n gwneud y penderfyniadau mawr sy’n effeithio ar ein bywydau i gyd yn ddynion.

Mae rhai o’r canlyniadau’n drawiadol. Canfu ein harolwg o 50 cwmni uchaf Cymru dim ond dwy brif weithredwr . Mae75% o’n hathrawon yn fenywod, eto dim ond 26% o’n prifathrawon mewn ysgolion uwchradd sy’n fenywod. A dim ond un o’n 22 arweinydd Cyngor sy’n fenyw.

Nid yw’r ffigyrau hyn yn ymwneud â phrinder o fenywod mewn safleoedd sy’n gwneud penderfyniadau’n unig.



Maent yn amlygu methiant llawer ehangach i sicrhau bod y bobl yn ein coridorau grym yn adlewyrchu lled cymdeithas ac yn cynnwys pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, fel pobl ethnig lleiafrifol a phobl anabl.

Mae hyn o bwys gan fod profiad personol yn chwarae rhan bwysig yn y penderfyniadau mae pobl yn eu gwneud a’r blaenoriaethau maent yn eu gosod. Felly os dynnir y rhai sy’n gwneud y penderfyniadau o adran gul y gymdeithas, anghofir anghenion y mwyafrif o bobl.

Mae ein hymchwil yn dangos nad yw bwriadau da’n ddigon. Mae angen inni weithredu ar frys ar draws holl feysydd bywyd. Os na wnawn, bydd 100 o flynyddoedd eraill cyn bod ein harweinwyr yn cynrychioli amrywiaeth ein gwlad.

Trwy gyhoeddi’r ystadegau hyn, rydym yn amlygu’r angen am newid ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi wrth drawsffurfio’r byrddau uchaf yng Nghymru.

**Ann Beynon**, Comisiynydd i Gymru
**Kate Bennett**, Cyfarwyddydd Cenedlaethol Cymru

# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ciplun o'r rhai sy'n sefyll mewn safleoedd o rym a dylanwad ym mywyd Cymru. Mae'n edrych ar ein gwleidyddwyr, ein prif weithredwyr a'n harweinwyr busnes i weld a ydynt yn adlewyrchu'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.**

Gwleidyddiaeth a'r sector preifat yw dau o'r meysydd pryder mwyaf enbyd a mae'r cyhoeddiad hwn o *Bwy sy'n rhedeg Cymru?* yn canolbwyntio'n neilltuol ar y meysydd hyn.

Yn nhermau gwleidyddiaeth, mae gennym lai o ASau na chyn etholiad cyffredinol 2010. Ac o ganlyniad i etholiad 2011 y Cynulliad Cenedlaethol bu nifer yr Aelodau sy'n ferched ostwng i 25 (42%). Felly mae'n hanfodol i ddefnyddio ysgogiadau deddfwriaethol yn effeithiol i gynyddu cyfleoedd i bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i fynd i mewn i wleidyddiaeth.

Mae arweinwyr busnes wedi  dechrau trafodaeth eang ynghylch yr angen, a'r ffordd orau, i gau'r bwlch rhywiol anferth yn ystafelloedd bwrdd ein sector preifat. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn golygu mesurau eglur ac ymarferol.

Mae'r adroddiad hwn yn gosod y rhesymau pam fod y broblem hon yn bwysig gan awgrymu rhai camau y gellir eu cymryd.

# Pam fod angen gwneud-penderfyniadau sy'n fwy cynrychiadol

**Mae tystiolaeth yn dangos bod llawer o resymau da pam fod angen i'n gwneuthurwyr penderfyniadau ddod o gefndiroedd mwy amrywiol, gan gynnwys:**

- Mae mwy o amrywiaeth ar y byrddau uchaf yn arwain at osod gwahanol faterion ar yr agenda a'u trafod mewn cyfarfodydd
- Mae penderfyniadau'n fwy tebygol o ystyried gwahanol safbwyntiau sy'n arwain at wasanaethau mwy ymatebol a busnes gwell
- Mae arweinwyr yn colli dilysrwydd os ydynt yn adlewyrchu ond rhan o'r boblogaeth
- Mae amrywiaeth yn helpu cyrff i fod mewn cytgord â'r bobl maent yn eu gwasanaethu
- Mae llywodraeth, busnesau a chyrff eraill yn methu mwynhau buddion cronfa anferth o dalent trwy gael gymaint o arweinwyr o gefndiroedd tebyg

# Yn ystafelloedd bwrdd y sector preifat

**“Mae’n syfrdanol nad yw bron hanner busnesau’r 250 FTSE yn cael hyd yn oed un aelod benywaidd ar y bwrdd… i weld cynnydd iawn mae rhaid i’r holl sector corfforaethol, llywodraeth a’r diwydiant hel-pennau ddod ynghyd i gefnogi hyn.”**

**Yr Arglwydd Davies o Abersoch a arweiniodd adolygiad ar ran y Llywodraeth i’r rhwystrau sy’n atal menywod rhag cyrraedd safleoedd uwch mewn busnes.**

Mae ein hadroddiad yn amlygu presenoldeb lleiaf menywod mewn safleoedd uwch yn y sector preifat yng Nghymru. Canfyddodd ein harolwg o’r 50 cwmni uchaf yng Nghymru dim ond dwy brif weithredwr benywaidd. Mae’r ffigwr hwn yn dangos y rhwystrau llethol mae menywod yn eu hwynebu o hyd ym myd busnes.

O safbwynt busnes, mae’n amlwg ei fod yn talu i ddeall anghenion cwsmeriaid ac i sicrhau bod cyfranddalwyr yn teimlo yr archwiliwyd bob llwybr i ddod â thalent a chreadigrwydd i mewn i’r busnes.

Mae’r Comisiwn a’r CBI ar y cyd yn cynnal digwyddiad i glywed amlinelliad Yr Arglwydd Davies ynghylch pam fod y mater hwn yn bwysig ac i drafod pa weithredu y gellid ei wneud i sicrhau bod ein hystafelloedd bwrdd yn manteisio ar y gronfa llawn o dalent sydd ar gael yng Nghymru.

Fel mae Llywydd y CBI Helen Alexander wedi ei ddweud, mae angen agweddau newydd a rhagolygon gwahanol os yw busnes yn mynd i ffynnu mewn dyfodol sy’n gynyddol o heriol a chystadleuol. Bydd mwy o amrywiaeth rhywiol yn helpu i gyflawni hynny’n union.

Prif weithredwyr 50 cwmni uchaf Cymru



# Byd gwleidyddiaeth Cymru

**Ym 1929 daeth Megan Lloyd George yr AS benywaidd gyntaf yng Nghymru. Mae'r cynnydd wedi bod yn araf ers hynny – dim ond 13 AS benywaidd mae Cymru erioed wedi'u cael.**


Mae canlyniadau eleni'n dangos bod gan Gymru ei Hysgrifennydd Gwladol benywaidd gyntaf, Cheryl Gillan. Sut bynnag, ar y cyfan nid yw'r darlun yn gwella. Gwelodd etholiad cyffredinol 2010 ostyngiad siomedig yn y nifer o ASau benywaidd yng Nghymru o wyth i saith.

Ar hyn o bryd, mae dynion yn ffurfio 58% o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r merched yn 42% ohono. Kirsty Williams yw'r arweinydd benywaidd gyntaf i unrhyw blaid yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Gostyngodd y nifer o ferched yn arwyddocaol o ganlyniad i etholiadau Mai 2011. Mae hyn yn cyflwyno her eglur i bob plaid gwleidyddol - i adnabod ac i weithredu'r dulliau gorau i gynyddu'r nifer o gynrychiolwyr benywaidd.

Mewn llywodraeth leol, canfyddom dim ond un Arweinydd Cyngor benywaidd, a dim ond 25% o gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod.

## Ein cynrychiolwyr etholedig yng Nghymru



# Pwysigrwydd mesurau arbennig

**Dim ond un deg tri AS benywaidd sydd erioed wedi bod o Gymru ers y 'Deaff Uno', rhwng Lloegr a Chumru ym 1536. Dewiswyd saith o'r rhain gan restrau menywod yn unig.**

Dim ond oherwydd fod y Blaid Lafur wedi defnyddio rhestrau menywod-yn-unig mae Cymru wedi cael hyd yn oed gymaint â hyn o ASau benywaidd. Nid yw'r Ceidwadwyr na Phlaid Cymru erioed wedi cael AS benywaidd yng Nghymru.

Mae hyn yn dangos bod mesurau arbennig yn hanfodol i ddewis menywod fel ymgeiswyr a'u hethol i'r Senedd.

Mae deddfwriaeth newydd yn rhoi cyfle i'r pleidiau ddefnyddio rhestrau byr menywod-yn-unig tan 2030. Mae angen i bleidiau fanteisio ar hyn os yw Cymru'n mynd i gyflawni cynrychiolaeth deg rhwng y rhywiau.

Mae'r siart isod yn dangos pa mor bwysig mae rhestrau byr menywod-yn-unig wedi bod ynghylch ethol menywod fel ASau yng Nghymru.

**ASau benywaidd yng Nghymru ers 1536**

| Enw | Plaid Wleidyddol | Dyddiad |
|---|---|---|
| Megan Lloyd George | Democratiaid Rhyddfrydol, Llafur | 1929-1951<br>1957-1966 |
| Dorothy M. Rees | Llafur | 1950-1951 |
| Eirene White | Llafur | 1950-1970 |
| Ann Clwyd | Llafur | 1984-presennol |
| Jackie Lawrence | Llafur | 1997-2005 |
| Julie Morgan | Llafur | 1997-2010 |
| Betty Williams | Llafur | 1997-2010 |
| Jessica Morden | Llafur | 2005-presennol |
| Sian James | Llafur | 2005-presennol |
| Nia Griffith | Llafur | 2005-presennol |
| Madeleine Moon | Llafur | 2005-presennol |
| Jenny Willott | Democratiaid Rhyddfrydol | 2005-presennol |
| Susan Elan Jones | Llafur | 2010-presennol |

**Allwedd: Coch – dewiswyd gan restrau menywod-yn-unig**

# Cynnydd yn aros yn rhy araf

**Mae ein hadroddiad yn dangos y gwnaethpwyd rhai apwyntiadau benywaidd arwyddocaol yng Nghymru mewn amseroedd diweddar. Sut bynnag, mae cynnydd ar y cyfan yn aros yn rhy araf, ac mewn llawer o feysydd rydym yn symud yn ôl.**

Ers ein hadroddiad yn 2009, mae gan Gymru ei his-ganghellor benywaidd gyntaf erioed, Julie Lydon ym Mhrifysgol Morgannwg. Bydd gennym ein hail yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd Yr Athro April McMahon yn cymryd y swydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ond bydd hyn o hyd yn golygu mai ond 18% o'n his-gangellorion sy'n fenywod.

Mae'r canran o brif weithredwyr awdurdodau lleol sy'n fenywod wedi codi o 9% yn 2006 i 23% ar hyn o bryd.

Mae ymddeoliad Barbara Wilding wedi golygu ein bod wedi gostwng i beidio cael un prif gwnstabl benywaidd yng Nghymru, unionwyd hynny wrth i Carmel Napier gydio yn yr awenau gyda'r Heddlu yng Ngwent.

Dim ond un allan o'r deg corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a arolygwyd gennym sydd â phrif weithredwr benywaidd.

Mae menywod yn cyfrif am 75% o'n hathrawon, eto dim ond 26% o'n prifathrawon mewn ysgolion uwchradd a 24% o'n penaethiaid mewn colegau addysg bellach sy'n fenywod.


Yn y GIG, mae menywod yn cyfrif am 75% o'r gweithlu a mae menyw yn rheoli mewn tri o'n saith Bwrdd Iechyd. Arweinir ein tair Ymddiriedolaeth GIG gan ddynion.

Canfyddom ond un golygydd benywaidd yn y papurau newydd a arolygwyd gennym.

Mae'r ystadegau hyn yn dangos bod Cymru'n methu manteisio ar gronfa o dalent a'r potensial am wneud penderfyniadau'n fwy effeithiol yn ystod dirywiad economaidd pan y gallwn ei fforddio leiaf. Gyda'n gilydd gallwn newid hynny.

Benyw
Gwryw

# Y cydbwysedd rhwng y rhywiau yng Nghymru



Benyw
Gwryw

## Awdurdodau Lleol

Prif Weithredwyr llywodraeth leol

23% 77%

Holl staff awdurdodau lleol

68% 32%

## Addysg

Is-gangellorion Prifysgol

18% 82%

Penaethiaid colegau addysg bellach

24% 76%

Prifathrawon ysgolion uwchradd


26% 74%

Prifathrawon

55% 45%

Holl athrawon

75% 25%


Benyw
Gwryw
Iechyd
Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG
30%
70%
Holl staff GIG
75%
25%
Y Cyfryngau
Timau rheoli uwch gyda darlledwyr mawr
33%
67%
Golygyddion gyda phapurau newydd wythnosol dethol
22%
78%
Undebau llafur
Pwyllgor Gweithredol TUC Cymru
25%
75%
Cynrychiolwyr Cynhadledd Flynyddol TUC Cymru
29%
71%

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn anelu at ostwng anghydraddoldeb, gael gwared ar wahaniaethu, gryfhau perthynas dda rhwng pobl, ac hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn a rhagor o wybodaeth amdanom ar

**www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru**

neu gallwch cysylltu â'n llinell gymorth:

Ffôn: 0845 604 8810
Ffôn Destun: 0845 604 8820
Ffacs: 0845 604 883

© Equality and Human Rights Commission
Cyhoeddwyd Mawrth 2011. Wedi'i ddiweddaru Gorffennaf 2011
ISBN 978-1-84206-352-1

# Ffynonellau

Cafwyd y data yn y cyfnod Ionawr 2011- Chwefror 2011. Diweddarwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2011, yn bennaf er mwyn cymryd i ystyriaeth, ganlyniadau etholiad y Cynulliad Cenedlaethol.

### Y Sector Preifat

300 uwch Western Mail
Blwyddlyfr Cymru 2010
Ymholiadau uniongyrchol

### Ein cynrychiolwyr etholedig

Gwefan Senedd y DU.
Gwefannau awdurdodau lleol yng Nghymru.
Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Gwefan Senedd Ewrop.

### Awdurdodau leol ac addysg

Gwefannau awdurdodau lleol yng Nghymru
Crynodeb Ystadegau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
Gwefannau coleg.

### Gweision sifil, cyrff a noddir a'r heddlu

Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Gwefannau cyrff a noddir
Gwefannau awdurdodau a lluoedd Heddlu

### Iechyd, y cyfryngau ac undebau llafur

Gwefannau GIG
Ymholiadau uniongyrchol
Blwyddlyfr Cymru 2010